

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cellite Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth
2018

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cellite Clinic ar 26 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd i helpu i nodi meysydd i'w gwella

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai meysydd o gadw cofnodion cleifion

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cellite Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol oherwydd ei fod yn darparu technoleg golau pwls dwys a thriniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 52 Charles Street, Caerdydd, CF10 2GF.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 9 Mawrth 2004.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a phedwar gweithredwr laser/golau pwls dwys.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer cleifion dros 18 oed gan ddefnyddio'r canlynol:

Laser CO2 Deka SmarkXoide:

- Arwynebu croen â laser ffracsiynol
- Gwaredu â nam i'r croen
- Triniaethau celoid
- Toriadau llawfeddygol

Laser Lutronic SPECTRA XT Q-switched:

- Gwaredu tatŵs
- Triniaethau acne
- Triniaeth pigmentiad
- Lleihau croendyllau
- Gwellu llyfnder y croen
- Triniaethau ar gyfer acne rhosynnaidd

Model ABC Lovelley IPL: Superior Pro:

- Gwaredu gwallt
- Triniaethau acne

- Triniaethau ecsema
- Triniaethau soriasis
- Triniaethau ar gyfer acne rhosynnaidd
- Telangiectasia'r wyneb
- Lleihau croendyllau

Microdermabrasion Sonolight:

- Adfywio'r croen
- Triniaeth ar gyfer creithiau acne

Laser Medistar Next Pro:

- Gwaredu gwallt
- Triniaeth fasgwlaidd
- Ieuangu'r croen

Laser Lutronic Action II Fractional (Er:YAG)

- Llacio a thynhau'r fagina
- I drin anymataliaeth wrinol yn sgil straen
- Gynaecoleg gosmetig
- Trin y croen â laser abladol

Laser SculpSure:

- Triniaethau lipolysis

Mae Cellite Clinic hefyd wedi'i gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir isod:

- Mân lawdriniaethau ar oedolion ar gyfer llawdriniaeth sugno braster ymchwyddol a thrawsblannu gwallt ffoliglaidd gan staff cymwysedig, hyfforddedig ac awdurdodedig

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Roedd angen gwella rhai meysydd o gofnodion cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 14 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn canmol y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r gofal wedi bod yn wych. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn fodlon rhoi cymorth. Mae fy urddas bob amser yn cael ei gynnal. Bob tro yr wyf yn ymweld, rwy'n cael cyfarwyddiadau ôl-ofal. Mae'r gwasanaeth a ddarparwyd wedi bod yn berffaith."

"Bob amser yn cael sicrwydd a sylw trwy'r driniaeth."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn cwblhau ffurflen hanes meddygol, neu'n cael gwirio eu hanes meddygol, cyn cael unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod hanes meddygol cychwynnol cleifion yn cael ei gymryd gan feddyg a'i gofnodi yn y cofnodion cleifion. Gwelsom hefyd nodiadau o fewn cofnodion cleifion i ddangos bod y meddyg wedi gwirio a oedd unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol yn ystod apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur pa wybodaeth yr oedd cleifion yn ei gwirio i gadarnhau bod eu hanes meddygol wedi newid neu heb newid. Cafodd yr hanes meddygol cychwynnol a gymerwyd gan y meddyg ei gwblhau mewn llaw fer, a gallai fod

yn anodd i glaf heb wybodaeth feddygol ddeall y manylion yn y cofnodion. Buom yn trafod hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a'r meddyg (hefyd yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth), a gytunodd i ddiwygio'r ffurflenni i sicrhau bod y wybodaeth yn haws i gleifion ei deall.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi mewn modd sy'n galluogi cleifion i gadarnhau'n hawdd a oes unrhyw newidiadau wedi bod.

Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod y drysau wedi'u cloi yn ystod triniaethau, bod cleifion yn cael tyweli urddas os oes angen, a bod cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo a gwisgo os oes angen. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion, cyn y driniaeth, yn ystod y driniaeth ac ar ôl y driniaeth.

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod staff yn ei drin ag urddas a pharch a'i fod yn teimlo ei fod bob amser yn gallu cynnal ei breifatrwydd, urddas a gwyleidd-dra yn ystod ei apwyntiadau yn y clinig.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell driniaeth, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb iddi gael ei chlywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Mae hyn am fod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn y driniaeth. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir.

Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd gytuno eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi derbyn digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth sydd ar gael iddo, a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn triniaeth.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddo bob amser cyn iddo dderbyn y driniaeth. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn cyfarwyddiadau ôl-ofal ynghylch sut i atal heintiau a chynorthwyo iachâd ar ôl eu triniaeth.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod bob amser yn llofnodi ffurflen ganiatâd cyn derbyn unrhyw driniaeth newydd.

Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig fanwl yn cael ei rhoi i gleifion.

Roedd gwybodaeth fanwl ynghylch triniaethau hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth i helpu cleifion i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu gofal.

Gwelsom fod caniatâd i gael triniaeth yn cael ei geisio gan gleifion yn y driniaeth gychwynnol, ond nid mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Cafodd y gwasanaeth ei atgoffa i sicrhau bod caniatâd i driniaeth yn cael ei gael ym mhob apwyntiad. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir caniatâd y claf a'i fod yn nodi hynny'n glir cyn pob triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar gael yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dywedodd pob claf ei fod wedi cael ei holi ynglŷn â'i farn am y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig – trwy holiaduron cleifion, er enghraifft.

Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur wrthym mai Saesneg oedd ei iaith ddewisol a'i fod bob amser yn medru siarad â staff yn ei iaith o ddewis.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd fod staff yn gwrando arno yn ystod ei apwyntiad a'i fod yn teimlo ei fod wedi cymryd rhan, gymaint ag yr oedd yn dymuno, mewn penderfyniadau ynghylch ei driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd pob un ond un claf ei fod wedi cael prawf ar ddarn i bennu gosodiad diogel ac effeithiol y laser ar gyfer ei fath o groen a math gwallt cyn derbyn triniaeth.

Cadarnhaodd sampl o'r cofnodion a welwyd gennym fod cleifion yn cael apwyntiad ymgynghori cyn dechrau'r driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen (lle bo'n briodol). Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau

o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal (a oedd yn cynnwys risgiau a manteision triniaeth) a gwnaethom drafod yr arweiniad a rannwyd ar lafar gyda chleifion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a oedd hefyd yn cynnwys trafod y risgiau a'r manteision.

Canfuom fod y gwasanaeth yn cadw cofrestr triniaeth gyffredinol a oedd yn benodol i bob peiriant golau pwls dwys/laser; roedd y cofnodion yn fanwl a thrylwyr fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bedair ystafell driniaeth lle'r oedd y peiriannau golau pwls dwys/laser yn cael eu defnyddio. Roedd rhaid mynd i fyny grisiau i gyrraedd rhai o'r ystafelloedd triniaeth, sy'n golygu na fyddai cleifion ag anawsterau symudedd neu rai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad at rai triniaethau oherwydd lleoliad yr ystafelloedd triniaeth. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwasanaeth yn hysbysu cleifion cyn gwneud apwyntiad pe na fyddai modd mynd at y driniaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom fod gan y gwasanaeth broses gynhwysfawr ar gyfer casglu adborth cleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn. Cynhaliodd y gwasanaeth holiadur blynyddol pan fyddai pob claf yn cael ei ofyn i gwblhau arolwg boddhad yn ystod un mis. Roedd cleifion hefyd yn gallu darparu adborth trwy allfeydd cyfryngau cymdeithasol. Gwelsom fod y gwasanaeth yn adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd ac roedd y canlyniad yn cael ei arddangos yn y dderbynfa i gleifion ei weld.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau da ar waith i gynnal safonau hylendid.

Roedd angen diweddarau'r polisi diogelu oedolion.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i warchod diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol ac y rhoddwyd gwasanaeth blynyddol i'r boeler nwy.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion yn nodi'r allanfeydd tân. Roedd asesiad risg tân ar waith, a gynhaliwyd gan gwmni allanol ym mis Ebrill 2016. Dywedwyd wrthym fod yr asesiad risg yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y rheolwr cofrestredig ond nad yw'n cael ei gofnodi'n ffurfiol. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelwch tân, a gwelsom hefyd y dogfennau i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth fynediad at becyn cymorth cyntaf, ond roedd rhai o'r eitemau wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig i ddisodli'r holl gynhyrchion oedd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y staff wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur o'r farn fod yr adeilad, yn ei farn ef, yn lân iawn.

Rhoddwyd disgrifiad manwl gan y gwasanaeth o'r trefniadau rheoli heintiau a gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal a chadw amserlenni glanhau er mwyn dangos cofnod o'r gwaith glanhau a wneir. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn asesu staff yn rheolaidd mewn perthynas â'u dealltwriaeth a'u gweithrediad ymarferol o'r polisi rheoli heintiau.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol/domestig.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion o 18 oed ac ni chaniateir plant yn yr ystafelloedd triniaeth.

Canfuom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn diogelu oedolion ar waith, a gwnaethom argymhell y dylent gael eu diweddarau i gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r cyngor lleol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod hyfforddiant diogelu oedolion wedi'i gwblhau yn 2014. Gwnaethom argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried hyfforddiant gloys i staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r cyngor lleol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Gwelsom hefyd dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth¹ yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod contract ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a bod rheolau lleol, yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau, a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom fod tystysgrifau yn dangos bod pob un heblaw dau o'r peiriannau laser a golau pwls dwys wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i helpu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y gwasanaeth yn gallu gwasanaethu dau beiriant laser oherwydd nad oedd cwmni ar gael i'w gwasanaethu. Gwelsom hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi hysbysu'r Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau, a oedd wedi darparu asesiad risg ar gyfer y peiriannau laser o ganlyniad iddynt beidio â chael eu gwasanaethu. Cadarnhaodd yr asesiad risg nad oedd y risg diogelwch o beidio â gwasanaethu'r ddyfais yn arwyddocaol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ar ddiwrnod yr arolygiad y byddai'n fodlon dadactifadu'r laser ar y ddau beiriant fel nad yw'n gallu cael ei ddefnyddio a defnyddio'r peiriannau at ddiben arall. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn gwneud hyn.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys a oedd wedi cael eu darparu a'u hadolygu gan weithiwr proffesiynol meddygol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddadactifadu'r laserau ar y ddau beiriant laser (Sonolight) fel nad ydynt yn gallu cael eu defnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

¹ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

Gwelsom fod gan yr ystafelloedd triniaeth gloeon ar y tu mewn i'r drysau, a oedd yn cael eu defnyddio pan oedd triniaeth yn cael ei rhoi. Gwelsom arwyddion rhybuddio ar y tu allan i'r drysau hefyd i nodi bod y peiriannau yn cael eu defnyddio. Canfuom fod trefniadau ar waith i storio'r allweddi yn ddiogel er mwyn gweithredu'r peiriannau, i helpu i atal defnydd anawdurdodedig.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr golau pwls dwys/laser. Wrth ei archwilio, ymddengys fod y cyfarpar mewn cyflwr gweledol da. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar diogelu llygaid, er mwyn helpu i sicrhau ei fod mewn cyflwr da ac yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod y Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau yn ddiweddar.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gwella ansawdd, gan gynnwys adborth gan gleifion, adolygiadau triniaeth, archwiliadau amserlenni glanhau ac adolygiadau clinigol, i helpu i sicrhau bod staff yn dilyn protocolau priodol ac yn bodloni safonau perthnasol.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom arsylwi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu cofnodion a data cleifion, a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod strwythur rheoli clir a chefnogol ar waith.

Roedd gan y gwasanaeth broses ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd a'u trosglwyddo i'r staff.

Roedd cofnodion hyfforddi staff yn dangos bod gan staff fynediad i ystod eang o gyfleoedd hyfforddi.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol, sydd hefyd yn gyfarwyddwr clinigol ar gyfer y gwasanaeth, sydd berchen â Cellite Clinic. Mae'r ddau'n cael eu cefnogi o ddydd i ddydd gan dîm o staff clinigol a staff nad ydynt yn glinigol. Mae cyfanswm o bedwar gweithredwr laser a golau pwls dwys.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth iddynt i gyd gael eu hadolygu'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau a byddai'n ofynnol iddynt ddarllen a llofnodi unrhyw bolisïau newydd i ddangos eu bod wedi deall y newidiadau neu bolisïau sydd newydd eu gweithredu.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob chwe wythnos, a gwelsom gofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd. Dangosodd y cofnodion fod meysydd rheolaidd yn cael eu trafod, gan gynnwys iechyd a diogelwch, materion gwasanaeth cwsmeriaid, hyfforddiant, a diwedddariadau, a chanfuom fod y rhain yn gynhwysfawr.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Canfuom fod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ar waith. Er i'r gwasanaeth ddweud wrthym nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion, gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth broses briodol ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion a'u cofnodi pe bai un yn cael ei derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth, a hyfforddiant gweithredwyr ar gyfer y peiriannau golau pwls dwys a laser.

Gwelsom dystiolaeth fod staff yn cael arfarniadau rheolaidd, a bod datblygiad personol a hyfforddiant yn cael eu nodi o ganlyniad i'r trafodaethau.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Er na fu angen i'r gwasanaeth recriwtio aelod newydd o staff yn ddiweddar, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses recriwtio addas, a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn-gyflogaeth priodol. Gwelsom fod gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer yr holl staff perthnasol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn't yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cellite Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi mewn modd sy'n galluogi cleifion i gadarnhau'n hawdd a oes unrhyw newidiadau wedi bod.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) Safon 3 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Wedi cynllunio a dechrau defnyddio ffurflen newydd sy'n cael ei gwirio, ei diweddarau a'i llofnodi gan bob claf rheolaidd ymhob ymweliad. Enw'r ffurflen yw "Rhestrau meddygol, hanes cyffuriau a chaniatadau".	Susan Judodiardjo	Gweithredwyd
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y ceir caniatâd y claf a'i fod yn nodi hynny'n glir cyn pob triniaeth.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) Safon 9 Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	Mae'r ffurflen sy'n cael ei chrybwyll uchod hefyd yn cynnwys caniatâd ar gyfer pob sesiwn driniaeth.	Susan Judodiardjo	Gweithredwyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r cyngor lleol.	Rheoliad 16 (1) (a) Safon 11 Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Wedi diweddarau "Polisi a Gweithdrefn Amddiffyn Oedolion" y clinig gyda manylion cyswllt Tîm Diogelu Oedolion Cyngor Caerdydd.	Susan Judodihardjo	Gweithredwyd
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddadactifadu'r laserau ar y ddau beiriant laser (Sonolight) fel nad ydynt yn gallu cael eu defnyddio.	Rheoliad 15 (2) Safon 16 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r staff wedi'u hyfforddi i ddadactifadu'r laserau ym mhob sesiwn driniaeth. Mae'r peiriannau bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer triniaethau microdermabrasion yn unig a hynny heb ddefnyddio laserau.	Susan Judodihardjo	Gweithredwyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Mrs Susan Judodihardjo

Swydd: Rheolwr y clinig

Dyddiad: 3 Mai 2018